

Annwyl Wendy Walters,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion, aelod arweiniol y cabinet dros addysg a sampl o ysgolion ac UCDau. Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion. Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr. Dyma [ddolen](#) i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir



**Meilyr Rowlands**

**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi**

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Bu awdurdod lleol Sir Gâr yn rhagweithiol ac yn ddiwyd yn ei ymdrechion i gynnig cefnogaeth briodol i ysgolion ac UC Dau mewn modd amserol yn ystod y cyfnod hwn. Dywed swyddogion y bu'r misoedd pan roedd yr ysgolion ar gau, heblaw ar gyfer gofal plant targedig, yn gyfnod heriol dros ben. Roedd cydweithio effeithiol ar draws adrannau gwahanol yn yr awdurdod lleol yn nodweddiadol gref o waith yr awdurdod lleol.

Ar hyd y cyfnod hwn, cyfathrebodd swyddogion yr awdurdod lleol yn helaeth o fewn ac ar draws adrannau, gydag ysgolion, UC Dau a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, lluniodd uwch swyddogion gylchlythyrau wythnosol, a anfonwyd yn uniongyrchol at benaethiaid a chadeiryddion byrddau llywodraethol i roi'r wybodaeth allweddol ddiweddaraf iddynt. Gwnaethant gynnal cyfarfodydd rhithiol rheolaidd â phenaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethol hefyd i drafod materion a oedd yn dod i'r amlwg a mynd i'r afael â phryderon. Rhannodd uwch swyddogion wybodaeth â rhieni hefyd drwy wefan y cyngor a chyfryngau cymdeithasol.

Trwy eu cyfarfodydd rhithiol wythnosol â phenaethiaid, a bwletinâu, amlinellodd uwch swyddogion eu disgwyliau ar gyfer ysgolion ac UC Dau. Cynlluniodd swyddogion ar gyfer parhad dysgu disgyblion, a chynnig cefnogaeth ddefnyddiol i rieni a staff mewn ysgolion drwy wefan yr awdurdod lleol. Sicrhodd hyn fod cyfathrebu â rhanddeiliaid yn glir.

Yn ystod y cyfnod clo, darparodd swyddogion gyfeiriadau e-bost Hwb i'r holl lywodraethwyr i wella cyfathrebu a rhannu adnoddau. Gwnaethant ad-drefnu hyfforddiant i helpu llywodraethwyr i gefnogi eu hysgolion. Cynhaliwyd yr holl hyfforddiant yn rhithiol ac roedd yn cynnwys agweddau fel cefnogi lles penaethiaid, defnyddio'r 'Offeryn Archwilio Lles', defnyddio'r grant Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam yn effeithiol, a chynnig arweiniad ar recriwtio'n ddiogel. Daeth gwerthusiad yr awdurdod lleol o'r rhaglen hyfforddiant i'r casgliad bod llywodraethwyr wedi gweld yr hyfforddiant yn fuddiol, a bod mwy o lywodraethwyr wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant rhithiol nag a oedd wedi mynychu digwyddiadau hyfforddiant tebyg wyneb-yn-wyneb yn flaenorol. Mae'n bwriadu parhau â'r ymagwedd hon tuag at hyfforddiant i lywodraethwyr yn y dyfodol.

Ymgynghorwyd â'r deiliad portffolio ar gyfer addysg a'r aelodau etholedig ar y bwrdd gweithredol ar gyfer addysg a phlant, a gwnaethant graffu ar yr holl benderfyniadau allweddol yn ymwneud ag ysgolion ac UC Dau. Ataliodd yr awdurdod lleol gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio Addysg a Phlant yn ystod y cyfnod clo. Mae'r rhain wedi'u trefnu i aildechrau ym mis Tachwedd 2020.

Defnyddiodd uwch swyddogion gynnwys yr arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i baratoi crynodebau gweithredol i ysgolion, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn hylaw ac yn hygyrch.

## Hyrwyddo dysgu

Mae'r awdurdod lleol wedi cydweithio'n dda â'i ysgolion a'r consortiwm rhanbarthol (ERW) i oruchwylio ei ymagweddau tuag at ddysgu o bell. Yn ogystal â chanolbwyntio ar gefnogaeth i ddarparwyr yn yr awdurdod lleol, cyfrannodd swyddogion yn bwrpasol at gynllun Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru hefyd. O ddechrau'r cyfnod clo, roedd ymgynghorwyr cefnogi addysg mewn cysylltiad ag ysgolion yn rheolaidd i'w cyfeirio at gefnogaeth ar gyfer lles, cynnig cyngor yn ôl yr angen, a chyfeirio ysgolion at adnoddau y gallant eu defnyddio i gefnogi dysgu.

Trwy gysylltu ag ysgolion, UCDAu a gwybodaeth arall a gasglwyd, nododd swyddogion yn gyflym anghysondebau yn ansawdd y profiadau dysgu roedd ysgolion ac UCDAu yn eu rhoi i ddisgyblion a'r gefnogaeth roeddent yn ei chynnig. Er mwyn helpu i hyrwyddo ymagweddau mwy cyson, lluniodd yr awdurdod lleol becynnau dysgu a rhestrau chwarae i ymarferwyr ac athrawon ym mhob cyfnod allweddol. Er enghraifft, rhoddodd yr awdurdod lleol arweiniad i leoliadau nas cynhelir ar y mathau o weithgareddau y gallent eu rhannu â rhieni i gefnogi dysgu plant, ac roedd ffocws clir ar weithgareddau ymarferol a gweithgareddau yn yr awyr agored. Cyhoeddodd y tîm gwella ysgolion arolwg i geisio barn rhieni am brofiadau dysgu eu plant a materion cysylltiedig eraill. Cafwyd cyfradd ymateb uchel, ac roedd yr adborth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o rieni'n hapus â darpariaeth eu hysgol ar gyfer dysgu o bell, yn gyffredinol.

Yn ystod ein galwadau ffôn ymgysylltu ag arweinwyr ysgolion, bu i lawer ohonynt ganmol y gefnogaeth, cyngor ac adnoddau ar gyfer materion ysgolion iach y gallai ysgolion eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau i ddisgyblion. Darparodd yr awdurdod lleol sesiynau hyfforddiant hefyd ar ddefnyddio platfformau digidol ar-lein i gefnogi dysgu, fel Microsoft Teams. Manteisiodd llawer o ysgolion ar draws yr awdurdod lleol ar y sesiynau hyn.

Tua dechrau'r cyfnod clo, roedd ychydig o ysgolion wedi dechrau cynllunio i ddarparu dysgu cydamserol i ddisgyblion. Gohiriwyd y gwaith hwn dros dro gan yr awdurdod lleol, yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â phryderon diogelu yn ymwneud â dysgu cydamserol. Roedd ychydig o ysgolion yn teimlo'n rhwystredig, gan eu bod yn teimlo bod ganddynt gynlluniau cadarn i gyflwyno'r gwaith hwn yn ddiogel. Yn dilyn arweiniad diweddarach a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, anogodd swyddogion ysgolion i ddefnyddio dysgu cydamserol, lle bo hynny'n berthnasol, a rhoesant arweiniad penodol a phrotocol clir i ysgolion i'w cynorthwyo â materion diogelu posibl ar sail yr arweiniad hwn.

Cydweithiodd yr awdurdod lleol ag ysgolion i geisio sicrhau y gallai pob un o'u disgyblion fanteisio'n briodol ar offer TGCh yn ystod y cyfnod roedd ysgolion ac UCDAu ar gau. Rhoddodd yr awdurdod lleol fenthyg offer TGCh i dros 1,600 o ddisgyblion i gefnogi eu dysgu digidol yn ystod y cyfnod clo. Cefnogodd 300 o ddisgyblion nad oedd ganddynt fynediad at y rhyngwyd hefyd. Roedd pob ysgol neu UCD yn gyfrifol am gasglu'r wybodaeth roedd ei hangen i roi gwybod i'r awdurdod lleol am anghenion TCGH eu disgyblion. Er gwaethaf ymdrechion yr awdurdod lleol a'r ysgolion, crybwyllodd ychydig o ysgolion fod rhai teuluoedd yn aros am offer o hyd tua diwedd tymor yr haf.

Aliniodd yr awdurdod lleol ei gynlluniau dysgu proffesiynol ag amserlen hyfforddiant ERW i gynnig hyfforddiant ar-lein i ysgolion yn ystod y cyfnod clo. Trefnodd yr awdurdod lleol fodiwlau hyfforddiant statudol i bob ysgol ar agweddau fel diogelu, diogelu data, a chodi a chario. Roedd staff yn gallu manteisio ar ystod o weminarau hefyd, a ddarparwyd gan y consortia rhanbarthol ledled Cymru, ac roedd y fideos ar sut i ddefnyddio meddalwedd wahanol i gefnogi dysgu o bell yn fuddiol i'r rhan fwyaf ohonynt. Datblygodd yr awdurdod lleol gwrs ar-lein ar ddysgu cyfunol a dysgu cydamserol hefyd ar gyfer un cynrychiolydd o bob ysgol ac UCD. Manteisiodd nifer dda o ysgolion ac UCDAu ar y cwrs hwn, ac fe'i defnyddiwyd yn rhan o'r sail ar gyfer datblygu'r cwricwlwm adfer ym mis Medi. Cynigiodd yr awdurdod lleol gyfle i uwch arweinwyr ysgolion fanteisio ar ddatblygiad proffesiynol ar reoli straen a gwella lles staff hefyd.

### **Cameo: Hyfforddiant Cymraeg**

Yn ystod y cyfnod clo, darparodd yr awdurdod lleol gwrs dysgu Cymraeg gwahaniaethol i athrawon a staff cymorth i wella eu medrau Cymraeg. Trwy gydweithio â thiworiaid Cymraeg i Oedolion, cyflwynwyd gwersi rhithiol a'u teilwra i fodloni anghenion dysgwyr. Bu'r ymrwymiad a'r ymgysylltiad â'r cyrsiau hyn yn uchel. Cymerodd tua 125 o aelodau staff ran yn yr hyfforddiant hwn, a chwblhaodd lawer ohonynt y cwrs yn llwyddiannus.

Parhaodd yr awdurdod lleol i ariannu lleoliadau nas cynhelir a oedd ar agor yn ystod y cyfnod hwn. Gweithiodd swyddogion â sefydliadau ambarél, fel Mudiad Meithrin, i'w galluogi i roi eu staff ar ffyrlo, yn ôl yr angen. Lluniodd athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar arweiniad defnyddiol i staff sy'n gweithio yn y cyfnod sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, i gefnogi plant ifanc yn ystod y cyfnod clo ac ar ôl iddynt ailagor. Er enghraifft, roedd yr arweiniad yn cynnwys gweithgareddau gwerthfawr i staff eu defnyddio i ddatblygu medrau creadigol a chorfforol disgyblion yn yr ardal awyr agored.

Gweithiodd staff yn yr awdurdod lleol yn benderfynol i sicrhau y gallai ysgolion ailagor ar 29 Mehefin. Yn unol â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, penderfynwyd y byddai ysgolion yn Sir Gâr yn agor am dair wythnos ac yn cau ar 17 Gorffennaf, yn hytrach nag ymestyn y tymor am wythnos ychwanegol. Derbyniodd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd eu disgyblion am un diwrnod yr wythnos am dair wythnos, a mabwysiadodd ysgolion cynradd ymagweddau hyblyg wedi'u seilio ar eu hamgylchiadau penodol. Roedd angen i ychydig o ysgolion osod terfyn ar nifer y plant a oedd yn mynychu eu hybiau gofal plant wedi i'r ysgolion ailagor, er mwyn derbyn disgyblion eraill o fewn capasiti diwygiedig yr ysgol, ar ôl ystyried cadw pellter cymdeithasol.

## **Cameo: Cefnogi pryderon iechyd a diogelwch mewn ysgolion**

Canmolodd bron pob ysgol gefnogaeth yr awdurdod lleol o ran iechyd a diogelwch. Darparodd swyddogion yr awdurdod lleol gynllun clir i ysgolion ar gyfer ailagor ddiwedd Mehefin ac ym mis Medi. Ymwelodd swyddogion ag ysgolion ac UC Dau i gynnal ymweliadau safle ochr yn ochr â phenaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr a chynghorwyr lleol. Gwnaethant gefnogi staff i sicrhau bod yr adeiladau'n ddiogel er mwyn i ddisgyblion ddychwelyd. Roedd hyn yn cynnwys darparu arwyddion ac offer golchi dwylo.

Roedd sesiynau 'galw heibio' rheolaidd ar-lein, a gynigiwyd gan swyddogion, yn un o gryfderau arbennig gwaith yr awdurdod i gefnogi iechyd a diogelwch. Roedd staff mewn ysgolion ac UC Dau yn gallu manteisio ar y sesiynau hyn i ofyn am gyngor a chymorth ar unrhyw beth a oedd yn peri pryder, er enghraifft 'Profi, Orlhain, Diogelu' neu gyngor ar ddarparu gweithgareddau dysgu penodol. Parhaodd y gefnogaeth hon ar hyd y cyfnod clo ac yn nhymor yr hydref.

Lluniodd staff yr awdurdod lleol becyn croeso i athrawon ei ddefnyddio â'u disgyblion yn ystod y tair wythnos ar ddiwedd tymor yr haf. Prif ffocws y pecyn hwn oedd lles disgyblion.

Er ei bod yn dasg heriol, llwyddodd yr awdurdod lleol i sicrhau cludiant ysgol i'r holl ddisgyblion a oedd ei angen ar gyfer y cyfnod o dair wythnos ar ddiwedd tymor yr haf – sef tua 450 mewn ysgolion prif ffrwd a 100 mewn darpariaeth arbenigol.

Sicrhaodd yr awdurdod lleol fod digon o staff glanhau ar gael ar gyfer pob ysgol ac UC, a oedd yn cynnwys rhywun ar y safle drwy gydol y dydd, yn ogystal â'r staff glanhau arferol ar ddiwedd y dydd.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi gwerthuso'n anffurfiol effeithiolrwydd ei ymagwedd tuag at ailagor ysgolion ac UC Dau. Roedd holiaduron i benaethiaid ar ddiwedd yr wythnos gyntaf ar ôl ailagor ym mis Mehefin yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon â'r gefnogaeth a gawsant, a bod y cynlluniau ar gyfer ailagor yn llwyddiannus, yn gyffredinol. Er bod ychydig o aelodau staff mewn ysgolion yn parhau i warchod eu hunain yn ystod y tair wythnos cyn gwyliau'r haf, roedd digon yn y gwaith i fodloni anghenion nifer y disgyblion a oedd yn bresennol.

Ni chynhaliodd yr awdurdod lleol hybiau gofal plant i blant gweithwyr allweddol yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, cynhaliodd sesiynau i ddysgwyr bregus a disgyblion ag anghenion cymhleth. Brocerodd yr awdurdod lleol gefnogaeth gan y sector preifat hefyd i gynnal tua hanner ei glybiau chwarae arferol dros yr haf. Mynychodd dros 160 o bobl ifanc y chwe diwrnod dysgu i deuluoedd a drefnwyd gan yr awdurdod lleol, a mynychodd tua 100 ohonynt y tair wythnos o weithgareddau ymgysylltu â dysgu dros yr haf.

Roedd swyddogion yn rhagweithiol o ran cefnogi ysgolion ac UC Dau i gynllunio ar gyfer ailagor ysgolion yn llawn ym mis Medi, cyn gynted ag y gwnaeth Llywodraeth Cymru y penderfyniad ynghylch hynny.

## Cefnogi dysgwyr bregus

Rhoddodd yr awdurdod lleol ffocws clir ar les disgyblion, staff yr ysgol a'i weithlu, a pharhaodd hyn yn rhan flaenllaw o'i ymagwedd yn ystod y cyfnod hwn. Ymatebodd yr awdurdod lleol yn gyflym i symud ei adnoddau a'i arbenigedd ar draws adrannau gwahanol i gefnogi ysgolion, UC Dau, disgyblion a rhieni.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r awdurdod lleol wedi cynnig cefnogaeth a chyngor i ysgolion ac UC Dau i helpu i ddiogelu lles ac iechyd meddwl disgyblion a staff. Er enghraifft, cynigiodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg gefnogaeth deilwredig i ysgolion, a chyfeirio ysgolion a theuluoedd at wybodaeth berthnasol, fel ymdrin â phrofedigaeth a cholled.

Cydweithiodd adrannau gwahanol ar draws yr awdurdod lleol â'i gilydd yn rheolaidd yn ystod y cyfnod clo i gefnogi lles disgyblion a staff. Datblygodd staff ar draws adrannau systemau i flaenoriaethu cefnogaeth i ddisgyblion bregus. Er enghraifft, nododd yr awdurdod lleol mai gofalywyr ifanc oedd un o'r grwpiau cyntaf o blant i ddangos lefelau uchel o orbryder. O ganlyniad, sefydlodd staff grwpiau 'WhatsApp' i gyfathrebu â gofalywyr ifanc a'u cefnogi drwy ddarparu pecynnau lles a thalebau bwyd. Gwnaethant ymweld â'r bobl ifanc hyn, yn ôl yr angen, a threfnu teithiau cerdded iddynt wrth gadw pellter cymdeithasol, er mwyn iddynt gael amser o ffwrdd o'r cartref a siarad â rhywun am unrhyw broblemau neu bryderon.

Nododd swyddogion yr awdurdod lleol, ynghyd ag ysgolion a disgyblion, yr angen parhaus am wasanaethau cwnsela yn ystod y cyfnod clo. Cydweithiodd staff yn agos â gwasanaeth cwnsela Area 43 i gynnig cwnsela dros y ffôn neu drwy gyfarfodydd rhithiol â disgyblion o Flwyddyn 5 ac uwch a ofynnodd am y gefnogaeth hon. Canfu arweinwyr mewn ysgolion fod y gwaith hwn yn werthfawr iawn i ddisgyblion, a chyfeiriodd ychydig o ddisgyblion eu hunain i'r gwasanaeth.

Defnyddiodd yr awdurdod lleol ystod eang o wybodaeth i nodi disgyblion bregus. Cydweithiodd swyddogion cyswllt â theuluoedd ag ysgolion a rhieni i ganfod anghenion disgyblion bregus, a thrafod sut y gellid eu cefnogi. Lle bo hynny'n bosibl, trefnodd swyddogion ddarpariaeth i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn hybiau gofal plant prif ffrwd neu arbenigol. Cynigiodd rheolwyr anghenion dysgu ychwanegol gefnogaeth a gwybodaeth reolaidd i staff yn yr hybiau, a rhoi arweiniad ar y ffordd orau i gefnogi dysgwyr bregus.

O'r cyfnod pan gaeodd ysgolion yn wreiddiol, datblygodd yr awdurdod lleol brotocol a oedd yn datgan yn glir y disgwyliad y dylai ysgolion a darparwyr eraill gysylltu â dysgwyr bregus o leiaf bob wythnos. Lle nad oedd hyn yn bosibl i ysgolion neu UC Dau, roeddent yn gallu gwneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth lles addysg, a fyddai'n cynnig cymorth i'w helpu i ymgysylltu â theuluoedd.

Yn rhan o'r strategaeth i gefnogi disgyblion, datblygodd adrannau'r awdurdod lleol ffyrdd creadigol i ddefnyddio medrau staff. Er enghraifft, defnyddiodd y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig fedrau dwyieithog ei gynorthwywyr addysgu i wneud galwadau lles i deuluoedd. Cynorthwyodd y cynorthwywyr addysgu iddynt ddod o hyd i arweiniad Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol, a'i ddeall. Gwnaethant

gynnig cymorth ymarferol hefyd, er enghraifft i wneud ceisiadau am brydau ysgol am ddim.

Wrth i'r ysgolion gau tua diwedd mis Mawrth, darparodd yr awdurdod lleol wasanaethau gofal plant i blant gweithwyr allweddol a dysgwyr bregus mewn hybiau a oedd wedi'u lleoli mewn sawl ysgol ar draws y sir. Adolygwyd y trefniant hwn yn rheolaidd a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Cefnogodd yr awdurdod lleol Gynllun Cymorth Gofal Plant Llywodraeth Cymru hefyd, i gynnig gofal i blant hyd at dair oed. Wrth i amser fynd ei flaen, a'r galw am leoedd gofal plant gynyddu, agorwyd mwy o hybiau nes i bron bob ysgol gynnig gofal plant yn eu hadeiladu yn ystod yr wythnos cyn iddynt ailagor ar 29 Mehefin.

---

## **Gwaith yr awdurdod lleol i gefnogi ei ysgolion ac UC Dau o Fedi 2020**

---

### **Arweinyddiaeth a chydweithio**

Mae arweinwyr ar draws yr awdurdod lleol wedi parhau i addasu eu prosesau a'u gweithdrefnau i gefnogi ysgolion ac UC Dau i ailagor i ddisgyblion ym mis Medi. Mae swyddogion yn addasu ac yn gwella eu hymagweddau wrth iddynt ddysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, ac wrth ystyried y cyngor ac arweiniad cenedlaethol diweddaraf. Mae gwaith trawsadrannol ar draws yr awdurdod lleol, wedi'i seilio'n gadarn ar werth craidd y Cyngor o weithio fel 'Un Tîm', wedi dod â chydlyniad i'w gwaith ac wedi helpu swyddogion i gefnogi ysgolion ac UC Dau yn effeithiol.

Mae cynlluniau strategol yr adran addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys blaenoriaethau i gefnogi lles staff, disgyblion a theuluoedd, a chefnogaeth i ysgolion ac UC Dau wrth iddynt gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Mae cynlluniau adrannol, fel y cynllun 'Dysgwyr Bregus a Dan Anfantais', yn amlinellu'n glir sut mae'r awdurdod yn gweithio i gefnogi ei ysgolion ac UC Dau a dysgwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau gwerthuso effaith ei gynlluniau a chymryd unrhyw ddysgu o'r rhain i addasu a gwella ei ffyrdd o weithio. Er enghraifft, mae wedi gweld manteision cefnogi ysgolion ac UC Dau yn rhithiol, yn enwedig o ran gweithio'n fwy effeithlon ac yn fwy ystwyth. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn ystyried pa agweddau ar ei waith ag ysgolion ac UC Dau y gellir eu cyflawni'n fwy effeithlon ac effeithiol drwy ddulliau rhithiol, a pha rai a fyddai'n cael eu cyflawni'n fwy effeithiol mewn cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb o hyd, lle bo hynny'n bosibl.

Mae arweinwyr wedi ceisio sicrhau cyfathrebu clir a chyson â'u holl randdeiliaid. Er enghraifft, drwy gyfarfodydd rheolaidd â phenaethiaid, mae'r cyfarwyddwr a swyddogion eraill wedi gallu lledaenu gwybodaeth a rhannu'r sail resymol ar gyfer penderfyniadau. Maent wedi gwrandao ar adborth gan benaethiaid ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn ac wedi'u haddasu, yn ôl yr angen. Mae timau gwella ysgolion yn rhannu gwybodaeth am unrhyw benderfyniadau ag ysgolion drwy'r ymgynghorwyr cefnogi addysg, ac yn bwydo negeseuon allweddol o ysgolion yn ôl i

uwch swyddogion. Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio grwpiau rhanddeiliaid, fel y grŵp cefnogi dysgwyr bregus a'r grŵp tegwch, i lywio ei benderfyniadau a gwerthuso ei waith.

## **Hyrwyddo dysgu**

Er mis Medi, bu'r awdurdod lleol yn cydweithio â'i ysgolion ac UC'Dau i gyflwyno cwricwlwm adfer, sydd â ffocws penodol ar ddatblygu ymagwedd dysgu cyfunol rhag ofn y bydd tarfu yn y dyfodol. Mae swyddogion wedi ystyried ymchwil gan Michael Fullan, 'Education Reimagined: The future of learning', yn sail ar gyfer symud dysgu o'r model dysgu o bell a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod clo i fodel y gellid ei ddefnyddio i ailagor ysgolion yn ddiogel. Mae rhan o'r ymagwedd hon wedi cynnwys ail-greu dysgu ar gyfer y dyfodol, ac ystyried goblygiadau posibl y Cwricwlwm i Gymru.

Er mwyn sicrhau parhad dysgu, symleiddiodd swyddogion gynllun parhad dysgu 15 pwynt Llywodraeth Cymru i roi ffocws ar bedwar maes blaenoriaeth yn cwmpasu dysgu o bell, gyda phwyslais ar 'gwricwlwm ac addysgeg', 'cydraddoldeb digidol', 'lles, cydraddoldeb a chynhwysiant' ac 'arweinyddiaeth a chyfathrebu'.

Parhaodd yr awdurdod lleol i gynnal cyfarfodydd rhithiol rheolaidd â phenaethiaid o fis Medi. Ar ôl cael adborth gan benaethiaid, addasodd yr awdurdod y modd yr oedd yn cyfathrebu â nhw drwy leihau nifer y bobl a oedd yn bresennol ym mhob cyfarfod a darparu mwy o gyfarfodydd ar gyfer sectorau penodol. Bu'r cyfarfodydd yn fforwm i swyddogion fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, egluro ymagwedd yr awdurdod a thrafod y camau nesaf. Roedd y system 'sgwrsio' ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o'r cyfarfod ar gael i arweinwyr hyd yn oed os nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Roedd penaethiaid yn gwerthfawrogi'r ymagwedd hon a pharodrwydd yr awdurdod lleol i addasu gweithdrefnau i'w cynorthwyo. Wrth i'r tymor symud yn ei flaen, mae mwy o gydbwysedd bellach rhwng mynd i'r afael â materion gweithredol a ffocws ar addysgu a dysgu.

Roedd llawer o ysgolion ac UC'Dau yn ei chael hi'n anodd rheoli faint o wybodaeth a oedd yn cael ei hanfon atynt o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys arweiniad gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol. Er mwyn ymateb i'r mater hwn, sefydlodd swyddogion yr awdurdod lleol 'Y Porth', sef siop un stop â gwybodaeth ddwyieithog i benaethiaid a rheolwyr mewn ysgolion ac UC'Dau. Mae'r Porth yn cadw'r holl wybodaeth berthnasol a chyfredol mewn un lle, er enghraifft yr holl fwletinau a diweddariadau wythnosol, gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol parhaus i staff a llywodraethwyr, lle ar gyfer bwcio hyfforddiant a chyflwyniadau dysgu proffesiynol a gynhaliwyd eisoes. Caiff ei ddiweddaru'n gyson, ac mae ysgolion yn gweld yr adnodd yn ddefnyddiol iawn. Mae'r system yn parhau i esblygu, a'i bwriad yw cefnogi'r awdurdod lleol â gwaith yn y dyfodol ac i gyfathrebu ag ysgolion.

O ran ailagor ysgolion ym mis Medi, crëwyd dogfennau arweiniad dwyieithog a'u rhannu ag ysgolion ac UC'Dau, gan gynnwys pecynnau croeso i rieni a staff, ac arweiniad ar ddysgu cyfunol a chefnogi dysgu diogel ar-lein.



Darparodd yr awdurdod lleol gymorth i ysgolion ac UC'Dau i ddatblygu'r amgylchedd dysgu awyr agored, a darparu gweithgareddau sy'n hybu gwydnwch a dyfalbarhad wrth ddatrys problemau. Ar hyn o bryd, darparwyd hyfforddiant ar ddysgu awyr agored i'r sector nas cynhelir, ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac UC'Dau sydd â disgyblion o ysgolion cynradd. Gohiriwyd yr hyfforddiant i ysgolion uwchradd oherwydd prinder y niferoedd a oedd am fanteisio yr hyfforddiant, er bod yr awdurdod lleol yn bwriadu ei gynnal eto yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol.

Mae ysgolion, UC'Dau a swyddogion yr awdurdod lleol wedi cydweithio â'i gilydd i gydbwysu dysgu â chefnogi lles. Mae swyddogion yn gweithio i arbrofi ag amrywiaeth o ddulliau dysgu cyfunol â nifer ddedhol o ysgolion. Er enghraifft, maent wedi cydweithio ag ychydig o ysgolion uwchradd i lunio fideos o wersi a recordiwyd ymlaen llaw, ac wedi rhannu'r arfer dda hon ag ysgolion ac UC'Dau eraill. Mae swyddogion yn sicrhau bod dysgu cyfunol ar agenda cyfarfodydd penaethiaid yr awdurdod lleol bob amser.

### **Cameo – cefnogi datblygiad Cymraeg disgyblion**

Nododd yr awdurdod lleol yr angen i gefnogi disgyblion er mwyn cynnal eu hymgysylltiad â'r Gymraeg yn gynnar yn y pandemig. Addasodd a mireiniodd tîm ymgynghorol y Gymraeg ei adnoddau presennol i ddarparu gweithgareddau buddiol i ysgolion ac UC'Dau i'w rhannu â disgyblion a rhieni. Yn ogystal, gwnaethant greu gweithgareddau allgyrsiol a microwersi i ddisgyblion er mwyn iddynt alw dysgu blaenorol i gof, adolygu gramadeg a datblygu eu medrau darllen a'u medrau rhifedd. Gwnaethant ddarparu tasgau gwerthfawr wedi'u seilio ar farddoniaeth Gymraeg fel sbardun ar gyfer dysgu, yn ogystal â darparu gweithgareddau i ddatblygu medrau Cymraeg llafar disgyblion drwy 'Cynllun Clonc' a gweithgareddau Flipgrid.

Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn dda i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft gweithgareddau gwyddonol ar gyfer yr awyr agored, a gweithgareddau ar hanes yr ardal leol. Dosbarthwyd llyfrynnau gwaith cartref hefyd i alluogi rhieni i gefnogi eu plant â'u gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydweithiodd swyddogion yr awdurdod lleol ac athrawon mewn nifer o'i ysgolion uwchradd â'r consortiwm rhanbarthol i greu ystod eang o adnoddau Cymraeg gwerthfawr i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

Parhaodd swyddogion i ddatblygu adnoddau i ysgolion ar hyd tymor yr hydref i gefnogi ysgolion i wella datblygiad Cymraeg disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio ystod o gyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i ymgysylltu â disgyblion, a sicrhau bod rhieni'n cael llif cyson a defnyddiol o wybodaeth i'w helpu i gefnogi lles a dysgu eu plentyn. Mae swyddogion wedi cael adborth defnyddiol o holiaduron rhieni, yn ogystal â gwybodaeth am sut y bu rhieni'n llwyddiannus o ran cefnogi dysgu eu plant yn ystod y pandemig.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi defnyddio ymchwil i ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i ysgolion i ddatblygu technegau dysgu carlam. Maent wedi edrych ar sut gall ysgolion gefnogi dysgu disgyblion drwy wella meysydd fel metawybyddiaeth, dysgu cydweithredol, rhoi adborth effeithiol, ymagweddau tuag at waith cartref, tiwtora a thiwora cymheiriaid. Mae swyddogion hefyd yn hybu strategaeth llafaredd Voice 21 mewn ysgolion ac UC Dau i wella hyder disgyblion, eu llafaredd a'u gallu i ddysgu. Mae'r awdurdod lleol yn amlygu enghreifftiau o arfer dda sy'n deillio o'r gwaith hwn i'w rhannu ag ysgolion ac UC Dau eraill ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnig cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ac UC Dau, gan gynnwys templed o gynllun gwario, er mwyn defnyddio cyllid grant yn effeithiol ar gyfer 'Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam'. Bydd y disgwyliad i ysgolion ddefnyddio'r cynllun yn galluogi swyddogion i fonitro pa mor dda mae ysgolion yn defnyddio'r grant, a'i effaith. Bu cydweithio da rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion o ran gwario'r grant hwn, ac mae un ysgol uwchradd wedi rhannu ei chynlluniau ar gyfer defnyddio'r grant gyda Llywodraeth Cymru fel arfer dda.

Mae'r awdurdod lleol ac ERW wedi alinio eu cynlluniau strategol i ddarparu rhaglen o gyfleoedd datblygu ac amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant i ysgolion ac UC Dau. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi cydweithio ag ERW i ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer meysydd pwnc penodol mewn ysgolion uwchradd, a fu'n ddefnyddiol i staff. Mae llawer o ysgolion ac UC Dau yn teimlo bod y cyfleoedd hyn yn fwy hygyrch ar-lein, a bod llai o amser addysgu yn cael ei golli ar gyfer hyfforddiant.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi darparu arweiniad defnyddiol i leoliadau nas cynhelir ac ysgolion ar ddatblygu gweithgareddau dysgu yn y cyfnod sylfaen. Mae hyn wedi cynnwys syniadau a gweithgareddau i ddatblygu medrau disgyblion yn yr amgylchedd awyr agored, yn ogystal â sut i drefnu arfer yn yr ystafell ddosbarth i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen er mwyn ymateb i COVID-19.

### **Cameo: gweithgareddau dysgu proffesiynol**

Mae'r awdurdod lleol wedi cydweithio'n effeithiol ag ERW i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod tymor yr hydref.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfres o gyfleoedd datblygiad proffesiynol rhithiol i ysgolion ac UC Dau, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer ADY a lles emosiynol. Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â Barry a Matthew Carpenter i helpu i ddatblygu cwricwlwm adfer i ailymgysylltu disgyblion â dysgu. Mae eu methodoleg yn canolbwyntio'n glir ar hybu lles ac iechyd meddwl disgyblion drwy ymagwedd yn seiliedig ar berthnasoedd, y mae rhyngweithio cymdeithasol ac arweinyddiaeth drugarog yn elfennau allweddol ohoni.

Mae'r awdurdod wedi darparu gweithdai i ysgolion â'r Athro Lee Elliot Major hefyd, i rannu syniadau ar sut i wella ymgysylltiad a deilliannau dysgwyr difreintiedig.

Yn ogystal â gwaith gyda ffynonellau allanol, nod yr awdurdod lleol yw cynnig ysbrydoliaeth ac arweiniad i ysgolion wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru drwy 'Gyfres yr Hydref' o ddysgu proffesiynol.

## Cefnogi dysgwyr bregus

Mae'r gwasanaeth addysg a lles wedi parhau i weithio ag ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd bregus i helpu disgyblion i ddychwelyd i'w hysgol neu UCD. Mae defnyddio system sgorio risg wedi galluogi'r gwasanaeth i dargedu'r teuluoedd sydd angen y gefnogaeth fwyaf. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun ac arweiniad ymgysylltu defnyddiol i ysgolion, ac mae'n eu cefnogi i gynllunio ymyriadau i helpu disgyblion i ddychwelyd i ysgolion ac UCDAu yn ddiogel.

### **Cameo: Pecynnau lles i gefnogi dychwelyd i'r ysgol neu UCD yn ddiogel**

Creodd yr awdurdod lleol becynnau lles i rieni, disgyblion a staff i'w cefnogi i ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel ym mis Mehefin, ac ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi. Seiliodd swyddogion y pecynnau ar ymchwil, a defnyddio'r wybodaeth hon i gynnig syniadau, gweithgareddau a chynghor ymarferol. Mae'r pecyn 'Croeso'n ôl' i rieni yn cynnig cynghor ar sut gall rhieni helpu eu plentyn i baratoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol. Mae'r pecyn i ddisgyblion yn cynnwys cynghor ar yr hyn y gallant gael profiad ohono, er enghraifft wrth ddefnyddio cludiant ysgol, yn ogystal ag awgrymiadau i helpu eu lles.

Mae'r rhaglen 'lechyd a Hapusrwydd' yn cynnig cefnogaeth deilwredig i bob darparwr ar gefnogi lles disgyblion. Mae swyddogion wedi defnyddio ystod o ymchwil, gan gynnwys model y Sefydliad Economeg Newydd (NEF) ar y pum nodwedd lles i danategu'r gweithgareddau hyn. Mae'r model lles hwn yn canolbwyntio ar gefnogi disgyblion i gysylltu â'r bobl o'u cwmpas, cadw'n heini, sylwi ar eu hamgylchedd, dal ati i ddysgu a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned neu ffrind.

Pan na all ysgolion ac UCDAu gynnal cysylltiad â theuluoedd, maent yn atgyfeirio disgyblion at y tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion er mwyn iddynt allu helpu i geisio ailymgysylltu â theuluoedd. Bu'r broses hon yn llwyddiannus o ran naill ai ailymgysylltu teuluoedd bregus â'r ysgol, cynnig ymateb mwy teilwredig fel ymweliadau lles â'r cartref, neu atgyfeirio at brosesau amddiffyn plant. Cyn defnyddio cynlluniau ymgysylltu, nifer y plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref yn ddewisol oedd 25 o blant yr wythnos, ar gyfartaledd. Ers rhoi'r cynlluniau hyn ar waith, mae'r niferoedd wedi gostwng oherwydd i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Mae defnyddio'r cynlluniau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ysgol hefyd. Bu presenoldeb ysgol yn Sir Gâr uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru yn gyson ers i'r ysgolion ailagor ym mis Medi.

Mae gwasanaethau fel y Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi parhau i gefnogi disgyblion a theuluoedd ers dechrau mis Medi. Er enghraifft, maent wedi parhau i ymgysylltu â theuluoedd drwy'r grŵp WhatsApp sefydledig i'w cefnogi wrth i'w plant ddychwelyd i addysg.

Mae'r adran Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi parhau i gynnig cefnogaeth i ysgolion ac UCDAu yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm i ddisgyblion ag ADY er mis Medi. Er enghraifft, cynhaliodd hyfforddiant pwrpasol i UCDAu a lleoliadau

arbenigol ym mis Medi ar sut i fynd i'r afael â dysgu cyfunol, a rhannu enghreifftiau o arfer o leoliadau arbenigol gwahanol yn yr awdurdod lleol.

Trwy baneli Cydlynwyr ADY, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gydweithio ag ysgolion ac UC'Dau i gefnogi lles disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol, yn ogystal â chynorthwyo ysgolion ac UC'Dau ag asesiadau a chynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Cymorth Cyfathrebu Sir Gâr wedi cynnig cefnogaeth ddefnyddiol drwy fideos i ysgolion ac UC'Dau ar sut i ddefnyddio Offeryn Sgrinio Lleferydd manwl ChATT ac Aseiad Ymwybyddiaeth Ffonolegol i nodi bylchau mewn dysgu, ochr yn ochr ag adnoddau i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm.

Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi nodi bod medrau iaith nifer o ddisgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaethau wedi cymryd cam yn ôl. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, gwnaethant nodi platfform dysgu rhithiol, y maent yn ei gyflwyno i ysgolion ac UC'Dau ar hyn o bryd, a fydd yn galluogi'r disgyblion hyn i fanteisio ar becyn teilwredig o weithgareddau i'w cefnogi i gaffael Saesneg.

Mae nifer o ysgolion ar draws yr awdurdod lleol wedi cael profiad o gynnydd yn nifer y teuluoedd o'r tu allan i Gymru yn symud i'r ardal ac yn rhoi eu plant mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gwasanaeth ymgynghorol y Gymraeg wedi parhau i gynnig cefnogaeth ieithyddol o bell i hwyrdyfodiaid i'r Gymraeg, gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mae ysgolion sy'n manteisio ar y gefnogaeth hon wedi'i gweld yn fuddiol o ran cynorthwyo'r disgyblion hyn i gaffael medrau Cymraeg newydd.

Mae cefnogaeth yr adran iechyd a diogelwch wedi parhau i fod yn werthfawr i ddarparwyr ers iddynt ailagor ym mis Medi. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu templedi o asesiadau risg i ysgolion ac UC'Dau sy'n ystyried anghenion pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr bregus. Parhaodd swyddogion i gynnig sesiynau 'galw heibio' rhithiol. Gall arweinwyr ysgolion fanteisio ar y cyfleuster sgwrsio, hyd yn oed os na allant fynychu'r sesiwn, i weld a oes unrhyw gwestiynau ac atebion sy'n berthnasol i'w hysgolion. Bu'r gwasanaeth hwn yn ddefnyddiol iawn i ysgolion ac UC'Dau, ac maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir.

Mae'r awdurdod lleol wedi cydweithio ag ysgolion ac UC'Dau ar hyd y cyfnod clo ac yn ystod y tymor newydd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae wedi parhau i gydweithio â Heddlu Dyfed Powys i rannu hysbysiadau Ymgyrch *Encompass* ag ysgolion a chynnig cyngor dilynol, yn ôl yr angen. Cynyddodd nifer yr hysbysiadau'n sylweddol yn ystod y cyfnod clo, a chydweithiodd yr awdurdod lleol ag ysgolion ac UC'Dau i gynnig arweiniad i rieni ar faterion fel cefnogaeth cam-drin domestig drwy wefannau ysgolion ac UC'Dau, a thrwy roi mwy o gyngor i ysgolion ac UC'Dau wrth atgyfeirio disgyblion a theuluoedd a oedd yn peri pryder.

Mae ysgolion arbennig ac ysgolion â darpariaeth arbenigol wedi crybwyll y bu'r awdurdod lleol yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a anfonwyd ato. Er enghraifft, mae gwaith amlasiantaeth â nyrsys arbenigol a ffisiotherapyddion wedi parhau i gefnogi darpariaeth arbenigol i fodloni anghenion disgyblion unigol.

Bu'r gefnogaeth gan y gwasanaeth cymorth ieuencid yn ddefnyddiol i ysgolion ac UC'Dau o ran ymgysylltu ag unigolion a'u cefnogi. Er i'r cyfyngiadau newid y ffordd y mae rhai gweithwyr ieuencid yn ymgymryd â'u rôl, gwnaeth arweinwyr ysgolion ac UC'Dau eu canmol am eu hatebion creadigol i helpu disgyblion bregus i ymgysylltu â'u dysgu.

Mae'r tîm ymddygiad a chymorth wedi parhau i ddatblygu a gweithredu ymagwedd newydd Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Lleoliad (TaPPaS) gydag ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd prosiect peilot ag ysgolion yn ardal Llanelli cyn y cyfnod clo, a oedd yn llwyddiannus. Ar ôl ei werthuso, penderfynodd swyddogion barhau â'r ymagwedd amlasiantaeth yn rhithiol o fis Medi ymlaen. Mae grŵp craidd o weithwyr proffesiynol amlasiantaeth, gan gynnwys cynrychiolydd o'r ysgol, Cydlynedd ADY yr ysgol ac aelodau o'r Tîm Seicolegwyr Addysg a Phlant, y Tîm Cymorth Ymddygiad Cymunedol, y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion a'r Tîm o Amgylch y Plentyn mewn ysgolion yn cefnogi disgyblion, teuluoedd ac ysgolion i fodloni anghenion lles emosiynol plant a phobl ifanc. Mae'r gwaith yn gwahodd mewnbwn gan asiantaethau eraill hefyd, yn ôl yr angen, fel y gwasanaeth cymorth ieuencid, nyrs yr ysgol a swyddogion ADY. Mae'r ymagwedd hon, sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr, yn galluogi gwasanaethau amlasiantaeth i gynllunio'n gyfannol ar gyfer anghenion disgyblion, ac yn lleihau'r baich ar rieni o ran yr angen i gysylltu â gwasanaethau ar wahân i gefnogi anghenion eu plentyn.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu arweiniad defnyddiol i ysgolion ac UC'Dau ar gynnal prosesau statudol er mwyn sicrhau y gall yr holl brosesau barhau o bell. Mae swyddogion wedi cynorthwyo ysgolion ac UC'Dau i addasu'r broses adolygu blynyddol a cheisiadau statudol, ac wedi cynnig cymorth technegol i hwyluso gweithio o bell, yn ôl yr angen. Mae'r awdurdod lleol wedi gwerthuso'r prosesau hyn ac wedi eu gweld yn fuddiol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel gwasanaethau amlasiantaeth a rhieni. O ganlyniad, mae'n bwriadu cynnal fersiwn o weithio o bell yn y dyfodol. Yn gyffredinol, aeth prosesau statudol rhagddynt o hyd heb unrhyw oedi.

At ei gilydd, mae'r prosesau atgyfeirio anghenion dysgu ychwanegol i ysgolion ac UC'Dau wedi parhau yn ôl yr arfer er mis Medi, ac mae bron pob ysgol yn parhau i atgyfeirio disgyblion, yn ôl yr angen, ac mae prosesau'r atgyfeiriadau hyn wedi dilyn y drefn arferol. Fel rhan o'r broses hon, mae ychydig o ysgolion ac UC'Dau wedi mynegi pryder ynghylch arsylwi disgyblion yn electronig, ac yn teimlo bod hyn yn rhoi baich ychwanegol ar staff.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gynnal ystod eang o gyrsiau i gynorthwyo ysgolion, UC'Dau a lleoliadau i nodi ac ymateb i anghenion dysgwyr bregus. Mae swyddogion wedi gweithio'n greadigol i gyflwyno hyfforddiant a chefnogaeth i ddarparwyr yn rhithiol. Er enghraifft, mae Pecyn Cymorth Hyfforddiant Lles Sir Gâr yn galluogi ysgolion i fanteisio ar hyfforddiant yn ymwneud â materion fel cymorth cyntaf iechyd meddwl, arfer wedi'i llywio gan drawma, a meddylgarwch. Gall ysgolion fanteisio ar yr hyfforddiant hwn yn ôl eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain.

Mae'r gwasanaeth ADY wedi addasu ei rhaglen hyfforddiant hefyd i'w chyflwyno o bell, er enghraifft drwy ddarparu pecyn hyfforddiant hunangyfeiriedig ar gyfer anghenion fel nam ar y clyw, wedi'i ddilyn gan grwpiau trafod a hyfforddiant pwrpasol ar Microsoft Teams.